Reptile Leaflet Side 2 (Welsh)
Full size A/W S/S 576mm x 210mm + 3mm bleed
Finished size when folded 96mm x 210mm. 4 colour process

Ymlusgiaid

Yng Ngogledd Cymru



Neidr y Gwair gan Stu Gregory

Cyflwyniad


Mae pump o rywogaethau o ymlusgiaid brodorol yn byw yng Ngogledd Cymru. Roedd pedair o'r rhain: y Wiber, Neidr y Gwair, y Fadfall a'r **Neidr ddefaid, yn arfer bod yn gyffredin yn yr ardal ond mae niferoedd pob un ohonynt wedi gostwng dros y 50 mlynedd ddiwethaf. Roedd pumed, Madfall y Tywod**, wedi darfod amdani yn ystod y cyfnod hwnnw ond fe'i hailgyflwynwyd ar ychydig o safleoedd arfordirol yn ddiweddar.

Mae arnom eisiau gwybod ble mae'r pedair rhywogaeth a oedd gynt yn gyffredin i'w cael o hyd. Dyma ble allech chi helpu o bosib.

Mae'r daflen yma'n rhoi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol ichi am ein nadroedd a'n madfallod, yn cynnwys ble allech chi ddod o hyd iddynt a sut i'w hadnabod. Ar gefn y daflen mae yna ffurflen i gofnodi'r hyn a welwch. Gellwch gyflwyno eich cofnodion ar-lein hefyd.

Helpwch ni i ddod o hyd i a gwarchod y nadroedd a'r madfallod sydd ar ôl os gwelwch yn dda.

Madfallod Gwryw a Benyw — Llun: Mick Brummage



Disgrifiadau

Y **Wiber** yw'r unig neidr wenwynig sydd i'w chael ym Mhrydain. Mae ganddi batrwm igam-ogam tywyll amlwg ar hyd ei chefn ac mae'n tyfu'n 60cm (24 modfedd) o hyd. Mae'r rhai benyw brown yn fwy na'r rhai gwryw llwyd fel arfer.



Gwiber Benywaidd — Llun: Mick Brummage

Mae gan **Neidr y Gwair** gorff gwyrdd/melynwyrdd gyda rhesi tywyll ar ei hochrau a choler felyn a du nodweddiadol y tu ôl i'w phen. Gall hi dyfu'n 100cm (39 modfedd) o hyd a hi yw'r mwyaf o'n hymlusgiad brodorol.

Mae'r **Fadfall** yn tyfu'n 15cm (6 modfedd) o hyd. Mae'i lliw yn eithaf amrywiol gydag arlliwiau o frown, llwyd a gwyrdd tywyll, gyda brychau mân neu linellau o liw goleuach neu dywyllach ar hyd ei chefn a'i hochrau fel arfer.

Madfall ddigoesau yw'r **Neidr ddefaid**. Mae ganddi gorff silindrig caled, llyfn sy'n sgleiniog yr olwg. Mae'r oedolion yn tyfu'n 40 cm (16 modfedd) o hyd. Mae'r neidr ddefaid yn amrywio o ran lliw o lwyd i frown, ac fel arfer mae gan y fenyw ochrau tywyllach a llinell dywyll denau ar hyd y cefn.

Dod O Hyd I Ymlusgiaid



Nadroedd Defaid Gwryw a Benyw — Llun: Barry Barnacal

Gan eu bod yn oer eu gwaed, mae ymlusgiaid ag angen safleoedd cynnes i dorheulo i godi tymheredd eu corff. Llechweddau yn wynebu'r de sy'n cynnig cymysgedd o safleoedd torheulo agored a chysgod trwchus i guddio ynddo sy'n fwyaf ffafriol.

Mae **Gwiberod**, **Madfallod** a **Nadroedd defaid** i'w cael mewn amryw o gynefinoedd yn cynnwys: gweundir, tir glas garw, cyrion coetiroedd, twyni tywod, ymylon ffyrdd a hen chwareli.
Mae **Nadroedd y Gwair** yn tueddu i ffafrio cynefinoedd gwlypach ble maent yn bwydo ar lyffaint melyn, llyffaint dafadennog a madfallod dŵr yn bennaf. Mae **Nadroedd defaid** yn cael eu cysylltu'n aml â gerddi a lotments.

Yr amodau gorau i weld ymlusgiaid yw pan fydd tymheredd yr aer yn 10-18°c, mewn haul tesog neu ysbeidiol gyda fawr ddim gwynt. Mae diwrnodau heulog poeth yn wael iawn fel rheol gan fod yr anifail yn cyrraedd ei dymheredd bywiog yn gyflym ac yn mynd i gysgodi. Mae ymlusgiaid Prydain yn ddisymud rhwng mis Hydref a mis Mawrth fel arfer.

Bygythiadau

Mae maint bychan eu poblogaeth a thwf atgenhedlol araf yn gwneud ymlusgiaid yn agored i'w niweidio gan amryw o ffactorau, yn fwyaf pwysig:

- Colli a darnio cynefinoedd.
- Difrodi ac aflonyddu ar gynefinoedd, ee. drwy orbori neu ddefnydd hamdden.
- Yn achos Gwiberod a Nadroedd y Gwair, erlyn uniongyrchol gan ddyn.

Nodded Cyfreithiol

Madfall y Tywod Gwrywaidd

Mae ein holl ymlusgiaid wedi'u gwarchod dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, sy'n ei gwneud yn drosedd eu lladd neu'u hanafu'n fwriadol, neu eu gwerthu neu'u masnachu. Rhoddir nodded ychwanegol i Fadfall y Tywod, sy'n llawer prinach.



Llun: Mick Brummage

Gwybodaeth Bellach

Os oes arnoch eisiau dod i wybod mwy am ein nadroedd a'n madfallod gallwn anfon pecyn gwybodaeth atoch. Ticiwch y blwch ar y ffurflen gofnodi os gwelwch yn dda. Bydd y pecyn hwn yn cynnwys cyngor ar sut y gellwch reoli eich tir/gardd er lles ymlusgiaid a mathau eraill o fywyd gwyllt.

Bywyd Gwyllt Gogledd-Ddwyrain Cymru (NEWW) - 01352 742115
Cyngor Cefn Gwlad Cymru - 01352 706600
Ecolegydd Cyngor Sir Fflint - 01352 703268
Ecolegydd Cyngor Sir Ddinbych - 01824 708263
Ecolegydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - 01978 292517
Ecolegydd Cyngor Sir Conwy - 01492 575310

FFURFLEN GOFNODI - Rhowch wybod in ni am yr ymlusgiaid a welwch. Bydd NEWW yn cydgasglu'r cofnodion hyn ac yn eu hanfon at Cofnod**

Dyddiad (dd/mm/yy)	Enw'r lleoliad	Cyf. Grid neu Gôd Post	Rhywogaeth	Nifer a Welwyd	Cynefin*	Nodiadau

*Cynefin: ee. gweundir, tir glas, coetir, twyni, gardd

Eich manylion chi:

Enw:

Cyfeiriad:

Cód Post:

Ffôn:

Ebost:

Gawn ni gysylltu â chi ynghylch y cofnod hwn? Cewch/Na
Hoffech chi becyn gwybodaeth am ymlusgiaid? Hoffwn/Na
Hoffech chi fwy o gopïau o'r daflen hon? Hoffwn/Na

Hawlfraint a gwarchod data: *Trwy gyflwyno gwybodaeth ar y ffurflen hon rwyf yn rhoi caniatâd i'r sefydliadau a'i lladdwyd isod i'w defnyddio yn electronig, yn cynnwys drwy'r Rhyngrwyd, at ei gyfer gwneud penderfyniadau ampgyfiedol, addysg, ymchwil a diffynydd anail er lles y cyhoedd yn unol â'n polisiau*

Cofnod yw'r Ganolfan Gofnodion Leol ar gyfer Gogledd Cymru. Maent yn cydgasglu ac yn rheoli data ymglŷn â bywyd gwyllt, sy'n cael ei ddefnyddio i ddiogelu bioamrywiaeth. Gellwch gofnodi ar-lein hefyd ar: **www.cofnod.org.uk
A: Lydiedch mor ganedig a dyfchwelyd y ffurflen hon i: Bywyd Gwyllt Gogledd-Ddwyrain Cymru, 17 Fforddd Nant Alyn, Rhydymwyn, Sir y Fflint. CH7 5HQ